Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ganolfan Addysg Bryn-y-Maen@Llwydgoed
**Bryn-y-Maen**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL28 5EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/07/13**

## Cyd-destun

Darpariaeth a gynhelir gan awdurdod lleol yw Canolfan Addysg Bryn-y-Maen, sydd wedi'i chofrestru fel uned cyfeirio disgyblion (UCD) ar gyfer disgyblion sy'n byw yng Nghonwy. Mae'n darparu addysg amser llawn ar gyfer hyd at wyth o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu UCD Bryn-y-Maen hanes gwael o bresenoldeb mewn ysgol prif ffrwd. Gallent hefyd fod wedi cael profiad negyddol o ysgol neu broblemau eraill yn eu bywydau personol. Mae pob un o'r disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol gyda'u hysgol uwchradd prif ffrwd.

Mae chwe deg y cant o ddisgyblion sy'n mynychu UCD Bryn-y-Maen yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac maent i gyd ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae pob un o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn gofal yn mynychu'r UCD ar hyn o bryd.

Nod yr UCD yw rhoi cymorth emosiynol a chymdeithasol i bob un o'r disgyblion er mwyn iddynt allu dychwelyd i'w hysgol prif ffrwd, neu symud i ddarpariaeth addysgol amgen.

Hwn yw'r arolygiad cyntaf o UCD Bryn-y-Maen. Fe'i hagorwyd yn Chwefror 2010, a bu gynt yn rhan o UCD Canolfan Addysg Gyffin. Mae wedi'i lleoli ar safle ysgol bentref fach mewn lleoliad gwledig uwchlaw Dyffryn Conwy. Nid yw'n briodol cymharu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn yr UCD gyda chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau grwpiau dros gyfnod, oherwydd natur ac amrediad anghenion dysgu disgyblion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae UCD Bryn-y-Maen yn dda oherwydd:

- bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni safonau da;
- bod pob un o'r disgyblion yn gwella eu hyder a'u presenoldeb;
- bod ansawdd yr addysgu'n dda;
- bod gofal, cymorth ac arweiniad da; a
- bod yr athro sydd â gofal yn darparu arweinyddiaeth glir.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod pob aelod o staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel tîm a bod ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion;
- bod yr UCD yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i roi cymorth ac arweiniad ychwanegol i bob disgybl;
- bod yr athro sydd â gofal a'r pwyllgor rheoli yn rhannu gweledigaeth glir o'r dyfodol ar gyfer yr UCD; a
- bod gan yr UCD staff ac adnoddau priodol a strategaethau priodol ar gyfer gwella.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod marcio yn dweud yn glir wrth ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith

A2 Annog pob un o'r disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill

A3 Defnyddio data i fonitro cynnydd grwpiau o ddysgwyr yn fwy effeithiol er mwyn llywio cynllunio a datblygiad

A4 Mesur effaith ac ansawdd darpariaeth allanol yn effeithiol o fewn yr UCD

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn aml, mae presenoldeb disgyblion sy'n ymuno â'r UCD wedi bod yn wael yn eu hysgolion prif ffrwd ac nid oes ganddynt lawer o hyder ynddyn nhw eu hunain fel dysgwyr. Fodd bynnag, oherwydd y cymorth a'r anogaeth unigol a gânt gan staff, mae'r disgyblion yn dangos ymrwymiad newydd i ddysgu, maent yn gwella'u presenoldeb yn fawr ac yn gwneud cynnydd da yn eu safonau cyrhaeddiad.

Mae pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn yr UCD. Fodd bynnag, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn ar y cyfan. Mae strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn wedi arwain at safonau gwell yn neilliannau bechgyn. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'w targedau unigol ac yn dangos gwelliant yn erbyn cyflawniadau blaenorol. Mae'r disgyblion hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu cyraeddiadau blaenorol pan fyddant yn cychwyn yno.

Mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd cymdeithasol ac emosiynol unigol, mae pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn dda i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau a thrafod digwyddiadau mewn llyfrau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau sydd eu hangen i ysgrifennu'n glir, ac mae'r rhai mwy abl yn dangos dychymyg da mewn ysgrifennu creadigol. Defnyddiant y medrau hyn yn dda i gynhyrchu cylchgrawn yr UCD ei hun, sy'n cael ei ysgrifennu a'i olygu gan y disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn ymateb yn dda i gwestiynau yn ysgrifenedig. Mae rhai disgyblion yn ansicr ynghylch sut i atalnodi, fel gwybod pryd i ddefnyddio priflythrennau mewn tasgau ysgrifenedig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos hyder cynyddol wrth siarad a chyfathrebu â phobl eraill. Maent yn defnyddio ystod eang o eirfa yn rhwydd wrth drafod testunau yn eu gwersi. Maent i gyd yn gwrando'n astud ar bobl eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gweithgareddau, gan ddangos ffocws cynaliadwy. Mae hyn yn aml yn cyferbynnu'n amlwg â'u hymddygiad blaenorol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos cynnydd da mewn medrau meddwl. Maent yn ymateb yn dda mewn trafodaethau am faterion cyfoes. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn dangos medrau da wrth wneud penderfyniadau, yn ogystal â dangos medrau sy'n datblygu wrth siarad a gwrando ar bobl eraill.

Er nad yw'n ofyniad i ddisgyblion nad ydynt o ysgol cyfrwng Cymraeg, mae'r UCD yn cynnwys Cymraeg achlysurol fel rhan o'i darpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddefnyddio Cymraeg achlysurol sylfaenol. Fodd bynnag, maent yn llai hyderus wrth ddefnyddio Cymraeg ysgrifenedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o fedrau rhifedd, yn enwedig wrth eu cymhwyso i sefyllfaoedd ymarferol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd i gynnal a threfnu'r Clwb Brecwast lle maent yn pennu cost cynhwysion ac yn cyfrifo biliau unigol ar gyfer disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) datblygedig. Maent yn ymgymryd ag ymchwil yn effeithiol, yn cofnodi eu canfyddiadau, yn cyflwyno gwaith ac yn gwella'u dysgu gan ddefnyddio tabiau electronig a dyfeisiau eraill.

Mae pob disgybl yn symud ymlaen i ddarpariaeth briodol yng nghyfnod allweddol 4.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach ac yn sylweddoli pwysigrwydd diet iach. Dangosant ymwybyddiaeth dda o faterion diogelwch wrth ymgymryd â thasgau yng ngardd yr UCD neu wrth goginio mewn gwersi technoleg bwyd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cydnabod manteision gwersi addysg gorfforol a chadw'n heini, ac maent yn mwynhau cymryd rhan ynddynt. Caiff y gweithgareddau hyn effaith dda ar eu lles emosiynol.

Mae pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn awchus ac yn frwd ac maent yn awyddus i ddod i'r UCD yn rheolaidd. Mae'r gwelliant sylweddol a ddangosir gan bob un o'r disgyblion yn eu cyfraddau presenoldeb ers cofrestru yn yr UCD yn gyflawniad sylweddol.

Mae disgyblion yn deall system yr UCD ar gyfer dyfarnu teilyngdod a gwobrau. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais at bobl eraill ac yn fwy hyderus wrth sgwrsio ag oedolion.

Mae disgyblion yn datblygu agweddau aeddfed wrth iddynt gymryd mwy o gyfrifoldeb a chymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol yn yr UCD. Maent yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, fel cymryd rhan yn y ganolfan hamdden leol a helpu mewn gwarchodfa i anifeiliaid. Maent hefyd yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn nifer o brosiectau a gweithdai a gynhelir gan oriel gelf leol. Mae'r berthynas benodol hon nid yn unig wedi datblygu a gwella doniau artistig disgyblion, ond mae hefyd wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar eu hunan-barch a'u hunanhyder.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'u llais yng nghyngor yr UCD i ddylanwadu ar ddatblygiadau. Er enghraifft, fe wnaethant helpu i ddylunio gardd yr ysgol ac mae eu rôl mewn trefnu Clwb Brecwast yr UCD yn nodwedd amlwg. Mae hyn wedi galluogi iddynt feithrin hyder a datblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu mewn sefyllfa ymarferol a swyddogaethol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae gan yr UCD ddatganiad clir ar bolisi cwricwlwm. Mae'n sicrhau bod cynlluniau gwaith yn berthnasol i anghenion dysgu disgyblion. Mae cynllunio effeithiol yn sicrhau bod cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cymell disgyblion i ymgymryd ag addysg o'r newydd. Mae'r cydbwysedd da rhwng gwaith grŵp a gwaith unigol yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser i weithio ar eu pen eu hunain a chydweithio â'u cyfoedion. Mae'r ddarpariaeth strwythuredig ar gyfer TGCh, medrau cyfathrebu a rhifedd yn cefnogi disgyblion yn effeithiol i oresgyn rhwystrau blaenorol rhag dysgu a magu hyder.

Mae cysylltiadau da gydag ysgolion prif ffrwd a darparwyr eraill yn sicrhau bod ffocws yn parhau i gael ei roi i ailintegreiddio, yn enwedig wrth i ddisgyblion agosáu at ddiwedd eu cyfnod yn yr UCD. Mae'r ffaith fod cymorth yn cael ei gynllunio a'i gydlynu'n effeithiol yn galluogi disgyblion i ddychwelyd i'r brif ffrwd yn raddol trwy weithgareddau cwricwlaidd wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn ailintegreiddio mewn ysgolion prif ffrwd yng nghyfnod allweddol 3. I'r disgyblion hyn, mae'r UCD yn cefnogi cyfnod pontio i ddarpariaeth amgen trwy brosiect Cydweithio Conwy a Llandrillo sydd wedi'i leoli yn y coleg addysg bellach lleol.

Mae'r UCD yn cynnig darpariaeth gwricwlaidd ddiddorol i ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygu medrau academaidd a chymdeithasol disgyblion. Mae ymweliadau gan arlunydd lleol, cysylltiadau â Barnardos ac astudiaeth hanesyddol o Gonwy yn galluogi disgyblion i uniaethu â'u cymuned a dysgu mwy am yr agweddau amrywiol arni. Mae ymweliadau â chanolfan hamdden leol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion mewn addysg gorfforol.

Mae cynllunio'r UCD yn sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu am agweddau ar y dimensiwn Cymreig yn cael eu cynnwys ar draws ystod o destunau.

Caiff agweddau ar ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu cynnwys yn effeithiol ar draws pynciau.

## Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu'n dda bron ym mhob un o'r gwersi. Ym mhob gwers, mae athrawon yn cymell disgyblion yn effeithiol i gymryd rhan lawn a gweithredol yn eu dysgu. Fodd bynnag, yn yr ychydig iawn o wersi lle'r oedd yr addysgu yn ddigonol yn unig, nid oedd y gwersi'n symud yn briodol, nid oeddent yn heriol ac nid oedd disgyblion yn cael digon o adborth.

Mae gan bob un o'r staff ddisgwyliadau uchel o waith ac ymddygiad disgyblion. Mae gan athrawon a staff cymorth berthynas dda gyda'r disgyblion y maent yn eu haddysgu, a gwybodaeth helaeth amdanynt. Bron ym mhob un o'r gwersi, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n effeithiol er mwyn bodloni anghenion disgyblion unigol. Defnyddiant ystod o strategaethau i fodloni anghenion a galluoedd pob disgybl.

Mae athrawon yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng gwaith unigol a gwaith grŵp. Maent yn addasu gwersi'n llwyddiannus i fodloni anghenion disgyblion unigol, ac yn annog disgyblion i helpu ei gilydd â'u gwaith. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion.

Er bod y marcio yn gyfoes, nid yw'n dweud wrth fyfyrwyr yn ddigon clir beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith a symud ymlaen yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae disgyblion yn cael adborth unigol a llafar o ansawdd uchel iawn yn ystod gwersi a chyfnodau tiwtorial.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y UCD bolisïau clir ac effeithiol i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Mae dull staff yn gyson ac maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a disgwyliadau uchel o ddisgyblion yn llwyddiannus. Maent yn deall yr anawsterau a gaiff dysgwyr unigol ac yn cydnabod ac yn dathlu'r ymdrechion y mae unigolion yn eu goresgyn i fynychu.

Mae'r amgylchedd meithringar, gofalgar a diogel yn cael dylanwad cadarnhaol ar les corfforol ac emosiynol disgyblion. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn gwneud gwelliannau sylweddol yn eu presenoldeb a'u bod wedi eu cymell i ddysgu a chymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau.

Rhoddir cymorth ac arweiniad da, ac mae'r UCD yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o wasanaethau cymorth allanol priodol i'w helpu i ddelio â materion personol.

Mae'r UCD yn nodi anghenion dysgu unigol disgyblion yn briodol ac yn defnyddio strategaethau, adnoddau a chymorth addas i fodloni eu hanghenion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn penderfynu ar eu targedau nac yn gwbl ymwybodol ohonynt. O ganlyniad, nid ydynt yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r UCD yn rhoi llawer o bwys ar ei pherthynas gyda rhieni a gofalwyr, gan roi cyfle iddynt drafod materion yn ymwneud â'r disgyblion pan fydd angen. Caiff rhieni a gofalwyr eu hannog i rannu pryderon a allai effeithio ar les emosiynol disgyblion. Mae hyn yn galluogi staff i ddeall pryderon disgyblion ac maent yn gwneud defnydd da o strategaethau addas i fynd i'r afael â'r rhain mewn modd sensitif a phriodol.

Mae'r UCD yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn galluogi disgyblion i archwilio a herio agweddau ac yn rhoi cyfleoedd defnyddiol ar gyfer myfyrio personol.

Mae trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r UCD yn gymuned gynhwysol ac mae'n sicrhau cyfle cyfartal i bawb yn llwyddiannus. Dethlir amrywiaeth ym mywyd a gwaith yr ysgol bob dydd ac yn ystod gweithredoedd o addoli ar y cyd.

Mae digon o le yn yr adeilad newydd, ac mae'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer nifer y disgyblion. Hen adeilad ysgol yw'r UCD, sydd wedi cael ei adnewyddu'n effeithiol i fod yn olau a chroesawgar. Mae'r mannau allanol yn datblygu'n llwyddiannus gyda chymorth y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys nifer o blanwyr a gwelyau blodau sydd wedi'u dylunio gan ddisgyblion ac yn cael eu cynnal ganddynt, gyda chymorth staff.

Mae maint ystafelloedd dosbarth yn addas ac yn cynnwys adnoddau da iawn. Caiff adnoddau eu gweddu'n dda i oedran ac anghenion disgyblion. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd dysgu ac yn dangos parch at yr adeilad, y tu mewn a'r tu allan.

Mae arddangosiadau wal yn addysgiadol ac yn gwella dysgu disgyblion. Mae'r toiledau yn lân a modern ac yn darparu cyfleusterau ar wahân ar gyfer bechgyn, merched a staff. Fodd bynnag, nid oes toiled â mynediad i'r anabl na chyfleusterau newid.

Mae digon o staff addysgu a staff cymorth cymwys ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae ysgrifenyddes ran-amser yr ysgol yn rhoi cymorth effeithlon i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn esmwyth o ddydd i ddydd.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr athro sydd â gofal weledigaeth glir o ran sut i symud yr UCD ymlaen, ac mae'n cyfleu hyn yn effeithiol i bob un o'r staff dan sylw. Mae staff yr UCD wedi rhoi ystod o bolisïau a chynlluniau defnyddiol ar waith sy'n bodloni anghenion pob un o'r disgyblion.

Mae'r UCD wedi gwneud cynnydd arbennig o dda mewn rhai meysydd sy'n cael blaenoriaeth genedlaethol. Er enghraifft, mae pob un o'r disgyblion wedi gwella eu presenoldeb ac maent yn gwneud cynnydd cyson dda mewn llythrennedd a rhifedd tra byddant yn yr UCD.

Mae'r athro sydd â gofal yn cynnal arsylwadau gwersi o bob aelod o'r staff addysgu fel rhan o raglen effeithiol o reoli perfformiad. Mae'r adolygiadau dilynol o berfformiad yn nodi targedau unigol yn glir ac mae'r UCD yn bodloni unrhyw anghenion hyfforddi.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gweithio'n agos â'r UCD ac yn rhannu ei weledigaeth ar gyfer gwella. Yn gyffredinol, mae'n deall gwaith yr UCD, yn cynnig cyfeiriad strategol clir a chymorth priodol. Fodd bynnag, nid yw'r UCD yn defnyddio data yn ddigon effeithiol i farnu pa mor dda y mae'n gwneud mewn meysydd fel mesur cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r athro sydd â gofal yn deall cryfderau'r UCD a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach. Mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm ac

yn cymryd rhan weithredol yn y broses adolygu a hunanarfarnu.

Mae’r hunanarfarnu yn fanwl ac wedi’i seilio ar dystiolaeth, ond nid yw bob amser yn ddigon arfarnol.  Mae’r UCD yn casglu data ar bresenoldeb ac mae wedi cyflwyno offer gwell yn ddiweddar i fesur a chofnodi perfformiad disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw’r UCD yn defnyddio data yn ddigon da ar hyn o bryd i fonitro cynnydd grwpiau o ddysgwyr a chynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Mae cynllun datblygu’r UCD yn realistig ac yn nodi pwy sy’n gyfrifol am bob maes gwella.  Mae’r pwyllgor rheoli wedi cadarnhau pob un o’r targedau ar gyfer gwella. Mae’r targedau hyn yn cysylltu’n dda â’r hunanarfarnu.

Mae pob un o’r staff wedi bod ynghlwm wrth gymunedau dysgu proffesiynol y tu mewn a’r tu allan i’r awdurdod lleol.  Maent yn gweithio’n agos gydag UCDau eraill i wella deilliannau ar gyfer disgyblion trwy rannu hyfforddiant a gwybodaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r UCD yn gweithio’n effeithiol iawn gydag ystod eang o wahanol asiantaethau a phartneriaid.  Yn y partneriaethau mwyaf datblygedig, mae’n amlwg fod deilliannau a lles disgyblion wedi gwella.  Er enghraifft, mae’r cydweithio gyda nifer o wahanol asiantaethau wedi helpu disgyblion i oresgyn pryderon ynglŷn â mynychu’r UCD.

Mae’r UCD wedi datblygu cysylltiadau strategol da gyda phob un o’r ysgolion uwchradd yn yr awdurdod.  Mae hyn yn golygu ei bod yn gallu ymateb yn effeithiol i gefnogi anghenion dysgwyr trwy becynnau ar gyfer ailintegreiddio i’r ysgol prif ffrwd.

Mae gan yr UCD berthynas ragorol gyda rhieni a gofalwyr ac mae’n eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau a chynlluniau ar gyfer eu plant.

Mae partneriaethau effeithiol gydag asiantaethau fel y Gwasanaeth Cymunedol ac Iechyd Meddwl yn golygu bod yr UCD yn gallu cynllunio pecynnau cymorth unigol cydlynol ar gyfer disgyblion.  O ganlyniad, mae disgyblion yn cael y cymorth a’r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i wella eu presenoldeb.

Mae’r UCD yn cynnal deialog barhaus gyda’i phartneriaid am y gwaith a wnânt ar y cyd â disgyblion.  Fodd bynnag, nid oes trefniadau ffurfiol i sicrhau effaith y cydweithio hwn ar safonau disgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae staff addysgu a staff cymorth yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd priodol i fodloni ystod anawsterau addysgol, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion.  Mae’r athro sydd â gofal yn defnyddio staff yn effeithiol.  Caiff staff cymorth effaith sylweddol ar brofiadau dysgu’r disgyblion ac ar ansawdd y gofal, y cymorth a’r arweiniad.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi cael eu rhoi ar waith erbyn hyn, ac maent yn effeithiol wrth nodi anghenion hyfforddi staff.  Caiff pob un o’r staff amser cynllunio, paratoi ac asesu priodol.  Mae hyn yn eu galluogi i roi amrywiaeth eang o

brofiadau dysgu i ddisgyblion yn effeithiol.

Mae blaenoriaethau gwariant a rhaglenni hyfforddi yn cysylltu'n agos â chynllun gwella'r UCD.  Mae'r athro sydd â gofal yn gweithio'n agos gyda'r pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol i sicrhau gwerth gorau.

Mae pwyllgor rheoli'r UCD yn effeithlon ac effeithiol.  O ystyried y safonau da a gyflawnir gan y disgyblion, yr addysgu da a'r ffaith fod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol, mae'r UCD yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i ddysgwyr gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alec Clark | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Julie Price | Arolygydd Lleyg |
| Sherill Worgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mark Peters | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg